OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 Rhif 1197 (Cy. 290)

CYNLLUNIO SEILWAITH

Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog (Diwygio) 2017

Gwnaed - - - - 29 Tachwedd 2017

Yn dod i rym - - 8 Rhagfyr 2017

Mae Innogy Renewables UK Limited(**1**) wedi cyflwyno cais i Weinidogion Cymru o dan baragraff 2(4) o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008(**2**) ar gyfer newidiadau i Orchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog 2014(**3**) nad ydynt yn sylweddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried effaith y newidiadau ar Orchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog 2014 fel y'i gwnaed yn wreiddiol, ac maent yn fodlon nad yw'r newidiadau'n sylweddol.

Ar ôl ystyried y cais, yr ymatebion i'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori a oedd yn ofynnol yn unol â rheoliadau 6 a 7 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Cydsyniad i Ddatblygiad) 2011(**4**), mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gwneud y newidiadau ar delerau nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r rheini a gynigiwyd yn y cais gwreiddiol, ym marn Gweinidogion Cymru.

Yn unol â hynny, wrth arfer y pwerau ym mharagraff 2(1) a (9) o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog (Diwygio) 2017 a daw i rym ar 8 Rhagfyr 2017.

Diwygio Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog 2014

2. Mae Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog 2014 wedi ei ddiwygio yn unol ag erthyglau 3 i 5.

(**1**) Cwmni rhif: 2550622, Innogy Renewables UK Limited (RWE Innogy UK Limited gynt) yw'r person sydd wedi cyflwyno cais ar gyfer Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog 2014.

(**2**) 2008 p. 29. Diwygiwyd paragraff 2 o Atodlen 6 gan baragraff 4 o Atodlen 8 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23); gan baragraff 72 o Atodlen 13 a chan Atodlen 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20); gan adran 28 o Ddeddf Seilwaith 2015 (p. 7); a chan baragraff 8(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

(**3**) O.S. 2014/2441.

(**4**) O.S. 2011/2055. Diwygiwyd rheoliadau 6 a 7 gan O.S. 2012/635 a 2015/760.

Diwygio erthygl 2 (dehongli)

3.—(1) Mae erthygl 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o "the works plan" rhodder y diffiniad a ganlyn—

""the works plan" means the revised works plan submitted with the application dated 23 Awst 2017 for a non-material change to this Order under paragraph 2 of Schedule 6 to the 2008 Act and certified by the Welsh Ministers in accordance with article 36(1A)."

Diwygio erthygl 36 (ardystio cynlluniau etc)

4.—(1) Mae erthygl 36 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Mewnosoder y paragraff a ganlyn ar ôl paragraff (1)—

"(1A) The undertaker must, as soon as practicable after the coming into force of the Clocaenog Forest Wind Farm (Amendment) Order 2017, submit to the Welsh Ministers a copy of the works plan for certification that it is a true copy."

Diwygio Atodlen 1 (prosiect awdurdodedig)

5.—(1) Yn y cyfeiriad at Waith Rhif 3 yn Rhan 1 (datblygiad awdurdodedig) o Atodlen 1, yn lle'r geiriau "A series of new tracks, existing tracks subject to improvement and widening and public roads subject to widening" rhodder "A series of new tracks, existing tracks subject to improvement and widening, public roads subject to widening and a series of turning heads located adjacent to tracks".

(2) Mae'r tablau sy'n ymwneud â Gwaith Rhif 3 yn Rhan 1 (datblygiad awdurdodedig) o Atodlen 1 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(3) Yn y tabl sydd â'r pennawd "New tracks"—

(a) yn y rhes sydd ag "N7" fel y cofnod cyntaf—

(i) yn lle "300779" rhodder "300704"; a

(ii) yn lle "357705" rhodder "357556"; a

(b) mewnosoder y canlynol ar ôl y rhes sydd ag "N4" fel y cofnod cyntaf—

"N25	300509	357483	300277	357467
N26	300596	357354	300614	357029
N27	301133	355580	300866	355375
N28	300784	355332	300534	355065".

(4) Yn y tabl sydd â'r pennawd "Existing tracks subject to improvement and widening", yn y rhes sydd ag "E6" fel y cofnod cyntaf—

(a) yn lle "300635" rhodder "300614"; a

(b) yn lle "357032" rhodder "357029".

(5) Mewnosoder y tabl canlynol ar ôl y tabl sydd â'r pennawd "Public roads subject to widening"—